

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan baragraff 1(8) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU DRAFFT

---

**2019 Rhif (Cy. )**

**YMADAEL Â'R UNDEB  
EWROPEAIDD, CYMRU**

**AMAETHYDDIAETH, CYMRU**

**BWYD, CYMRU**

**Rheoliadau Bwyd (Diwygiadau  
Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r  
UE) (Rhif 2) 2019**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16), er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru ym maes hylendid a diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid, cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid rheoleiddiedig, a safonau a labelu bwyd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan baragraff 1(8) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU DRAFFT

---

**2019 Rhif (Cy. )**

**YMADAEL Â'R UNDEB  
EWROPEAIDD, CYMRU**

**AMAETHYDDIAETH, CYMRU**

**BWYD, CYMRU**

**Rheoliadau Bwyd (Diwygiadau  
Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r  
UE) (Rhif 2) 2019**

*Gwnaed*

\*\*\*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(3)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(1).

Yn unol â pharagraff 1(8) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch

bwyd(1), ymgynghorwyd yn agored ac yn dryloyw â'r cyhoedd wrth lunio'r Rheoliadau hyn.

### **Enwi, cymhwyso a chychwyn**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2019.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar y diwrnod ymadael.

### **Rheoliadau Bwyd Cyffredinol 2004**

2. Yn rheoliad 4(a) o Reoliadau Bwyd Cyffredinol 2004(2), yn lle "European Union" rhodder "United Kingdom".

### **Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006**

3.—(1) Mae Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006(3) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 2, yn y tabl—

(a) yn y cofnod ar gyfer Erthygl 6(1) o Reoliad 852/2004, yn yr ail golofn, yn lle "ag unrhyw ddeddfwriaeth arall yr UE neu unrhyw gyfraith genedlaethol arall sy'n gymwys" rhodder "â chyfraith y Deyrnas Unedig";

(b) yn y cofnod ar gyfer Erthygl 4(1) o Reoliad 853/2004, yn yr ail golofn, hepgorer "ac sydd wedi'u gweithgynhyrchu yn yr Undeb Ewropeaidd";

(c) hepgorer y cofnod ar gyfer Erthygl 8 o Reoliad 853/2004.

(3) Yn Atodlen 3, ym mharagraff 10, yn lle "mewn un neu ragor o ieithoedd y Gymuned" rhodder "yn Saesneg, neu yn Gymraeg ac yn Saesneg".

### **Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2007**

4.—(1) Mae Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2007(4) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

- 
- (1) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t. 1, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
- (2) O.S. 2004/3279, a ddiwygiwyd gan O.S. 2005/3254 (Cy. 247) ac O.S. 2011/1043; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
- (3) O.S. 2006/31 (Cy. 5), a ddiwygiwyd gan O.S. 2011/1043 ac O.S. 2016/845 (Cy. 214); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
- (4) O.S. 2007/3462 (Cy. 307), a ddiwygiwyd gan O.S. 2011/1043; mae offeryn diwygio arall ond nid yw'n berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(2) Yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad o “trydedd wlad”, yn lle “unrhyw wlad neu diriogaeth, heblaw Kalaallit Nunaat (Greenland), nad yw’n Wladwriaeth AEE gyfan neu’n rhan o Wladwriaeth AEE” rhodder “gwlad neu wladwriaeth ac eithrio’r Deyrnas Unedig”.

(3) Yn lle rheoliad 4 rhodder—

“4. Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at nifer penodedig o Ewros i’w ddarllen fel y swm hwnnw wedi ei drosi i bunnoedd sterling gan ddefnyddio’r gyfradd gyfnewid o GBP1 = EUR1.1413.”

### **Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009**

5.—(1) Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 4, yn lle’r Tabl rhodder—

<i>“Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Awdurdod Cymwys</i>	<i>Y darpariaethau yn Rheoliad 882/2004</i>
Yr Asiantaeth	Erthyglau 3(6), 4(2) i (6), 5(1) i (3), 6, 7, 8(1) a (3), 9, 10, 11(1) i (3) a (5) i (7), 12, 19(1) a (2), 24, 27, 28, 31(1) a (2)(f), a 54
Yr awdurdod bwyd anifeiliaid	Erthyglau 3(6), 4(2) i (6), 5(1) i (3), 6, 7, 8(1) a (3), 9, 10, 11(1) i (3) a (5) i (7), 15(1) i (4), 16(1) a (2), 18, 19(1) a (2), 20, 21, 22, 24, 27, 28, 31, a 54”.

(3) Yn Atodlen 5, yn lle’r Tabl rhodder—

<i>“Colofn 1</i>	<i>Colofn 2</i>
<i>Awdurdod Cymwys</i>	<i>Y darpariaethau yn Rheoliad 882/2004</i>
Yr Asiantaeth	Erthyglau 3(6), 4(2) i (6), 5(1) i (3), 6, 7, 8(1) a (3), 9, 10, 11(1) i (3) a (5) i (7), 12, 14, 19(1) a (2), 24, 27, 28, 31, a 54
Yr awdurdod bwyd	Erthyglau 3(6), 4(2) i (6), 5(1) i (3), 6, 7, 8(1) a (3), 9, 10, 11(1) i (3) a (5) i (7), 15(1)

(1) O.S. 2009/3376 (Cy. 298), a ddiwygiwyd gan O.S. 2011/1043; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

i (4), 16(1) a (2), 18,  
19(1) a (2), 20, 21, 22,  
24, 27, 28, 31, a 54”.

(4) Yn Atodlen 6, yn lle'r cofnod cyntaf yng Ngholofn 2 o'r Tabl rhodder—

“Gofyniad bod rhaid i weithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid a bwyd neu eu cynrychiolwyr roi hysbysiad digonol ymlaen llaw o amcangyfrif o'r dyddiad a'r amser y bydd y llwyth yn ffisegol yn cyrraedd y pwynt mynediad dynodedig ac o natur y llwyth yn y modd a nodir yn yr Erthygl honno (dogfen fynediad gyffredin i gael ei llenwi a'i throsglwyddo o leiaf un diwrnod gwaith ymlaen llaw) ac yn Erthygl 7 (dogfen fynediad gyffredin i gael ei llunio yn Saesneg, neu yn Gymraeg ac yn Saesneg).”

### **Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012**

6.—(1) Mae Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 4(3), hepgorer “Cymunedol”.

(3) Yn rheoliad 6(1)—

(a) hepgorer is-baragraff (a);

(b) yn is-baragraff (b), yn lle “16(1)” rhodder “16”.

### **Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013**

7.—(1) Mae Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Hpgorer rheoliad 15.

(3) Yn Atodlen 1—

(a) yn Nhabl 1, yn y cofnod ar gyfer Erthygl 26.1, yn yr ail golofn, yn lle “Comisiwn” rhodder “Awdurdod”;

(b) yn Nhabl 2—

(i) yn y cofnod ar gyfer Erthygl 21.1 (fel y'i darllenir gydag Erthygl 22), yn yr ail golofn, yn lle “mewn iaith a ddeallir yn hawdd gan y prynwyr” rhodder “yn

---

(1) O.S. 2012/2705 (Cy. 291), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(2) O.S. 2013/2591 (Cy. 255), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Saesneg, neu yn Gymraeg ac yn Saesneg”;

- (c) yn y cofnod ar gyfer Erthygl 26.2, yn yr ail golofn, yn lle “y Comisiwn” rhodder “yr Awdurdod”.

(4) Yn Atodlen 2, yn Nhabl 1—

- (a) yn y cofnod ar gyfer Erthygl 10, yn yr ail golofn, yn lle “restr yr Undeb” rhodder “y rhestr ddomestig”;
- (b) yn y cofnod ar gyfer Erthygl 19.2, yn yr ail golofn, yn lle “Comisiwn” rhodder “Awdurdod”;
- (c) yn y cofnod ar gyfer Erthygl 19.3, yn yr ail golofn, yn lle “Comisiwn” rhodder “Awdurdod”.

(5) Yn Atodlen 3, yn Nhabl 1, yn y cofnod ar gyfer Erthygl 9.5, yn yr ail golofn, yn lle “Comisiwn” rhodder “Awdurdod”.

(6) Yn Atodlen 4, yn Nhabl 1—

- (a) yn y cofnod ar gyfer Erthygl 4, yn yr ail golofn, yn lle “restr yr Undeb” rhodder “y rhestr ddomestig”;
- (b) yn y cofnod ar gyfer Erthygl 14.1, yn yr ail golofn, yn lle “Comisiwn” rhodder “Awdurdod”;
- (c) yn y cofnod ar gyfer Erthygl 14.2, yn yr ail golofn, yn lle “Comisiwn” rhodder “Awdurdod”.

### **Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi’i Botelu (Cymru) 2015**

**8.**—(1) Mae Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi’i Botelu (Cymru) 2015<sup>(1)</sup> wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2—

- (a) ym mharagraff (1)—
- (i) hepgorer y diffiniad o “Cyfarwyddeb 2003/40”;
- (ii) yn y lle priodol, mewnosoder—
- “ystyr “deddfwriaeth berthnasol ynghylch dŵr wedi’i botelu” (“*relevant bottled water legislation*”) yw—
- (a) o ran Lloegr, Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi’i Botelu (Lloegr) 2007<sup>(2)</sup>;

---

(1) O.S. 2015/1867 (Cy. 274), a ddiwygiwyd gan O.S. 2017/935 (Cy. 229).

(2) O.S. 2007/2785. Yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2009/1598, O.S. 2010/433, O.S. 2011/451, O.S. 2014/1855 ac O.S. 2018/352.

- (b) o ran Gogledd Iwerddon, Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Gogledd Iwerddon) 2015(1);
  - (c) o ran yr Alban, Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Yr Alban) (Rhif 2) 2007(2);
- (iii) yn y lle priodol, mewnosoder—
- “ystyr “trydedd wlad” (“*third country*”) yw unrhyw wlad ac eithrio'r Deyrnas Unedig, ac mae'n cynnwys—
- (a) Beiliaeth Guernsey;
  - (b) Beiliaeth Jersey;
  - (c) Ynys Manaw.”;
- (b) ym mharagraff (3), hepgorer “Cyfarwyddeb 2003/40.”.
- (3) Yn rheoliad 3(1)—
- (a) yn is-baragraff (a), yn lle'r geiriau o “Cyfarwyddeb” hyd at y diwedd rhodder “rheoliad 2(1) o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012(3)”;
  - (b) yn is-baragraff (d), yn lle “wlad heblaw Gwladwriaeth AEE” rhodder “drydedd wlad”.
- (4) Yn rheoliad 4—
- (a) ym mharagraff (2)—
    - (i) yn is-baragraff (b), yn lle “yn unol â Chyfarwyddeb 2009/54” rhodder “o dan y ddeddfwriaeth berthnasol ynghylch dŵr wedi'i botelu”;
    - (ii) hepgorer is-baragraff (c);
  - (iii) yn is-baragraff (d)—
    - (aa) yn y geiriau o flaen paragraff (i), yn lle “gwlad heblaw Gwladwriaeth AEE” rhodder “trydedd wlad”;
    - (bb) yn lle paragraff (ii) rhodder—
      - “(ii) pan fo ganddo gydnabyddiaeth gyfatebol a roddir gan awdurdod cyfrifol mewn rhan arall o'r Deyrnas Unedig.”;
  - (b) hepgorer paragraff (3).
- (5) Ar ôl rheoliad 4 mewnosoder—

---

(1) Rh.St. 2015/365. Diwygiwyd gan Rh.St. 2017/201.  
 (2) O.S.A. 2007/483. Yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S.A. 2009/273, O.S.A. 2010/89 ac O.S. 2011/1043.  
 (3) O.S. 2012/1916.

**“Darpariaeth drosiannol: ymadael â’r AEE a’r UE**

4A.—(1) Mae’r dŵr a ganlyn wedi ei achredu, hynny yw mae’n cael ei drin at ddibenion y Rheoliadau hyn fel pe bai’n ddŵr mwynol naturiol a gydnabyddir gan yr Asiantaeth o dan reoliad 4(2)(d)(i)—

- (a) dŵr mwynol naturiol sefydledig a gydnabyddir yn yr UE;
- (b) dŵr mwynol naturiol sefydledig a gydnabyddir yng Ngwlad yr Iâ;
- (c) dŵr mwynol naturiol sefydledig a gydnabyddir yn Norwy.

(2) Mae’r achrediad ym mharagraff (1) yn parhau i gael effaith mewn perthynas â dŵr mwynol naturiol y mae is-baragraff (a), (b) neu (c) o’r paragraff hwnnw yn gymwys iddo hyd nes y dyddiad perthnasol y daw’r achrediad i ben.

(3) Yn achos dŵr mwynol naturiol sefydledig a gydnabyddir yn yr UE, os yw Gweinidogion Cymru o’r farn bod o leiaf un dŵr mwynol sefydledig a gydnabyddir yn y DU nad yw’n cael ei drin gan yr awdurdod cyfrifol mewn o leiaf un Aelod-wladwriaeth fel dŵr mwynol a gydnabyddir at ddibenion Cyfarwyddeb 2009/54/EC(1), caiff Gweinidogion Cymru hysbysu’r Comisiwn fod yr achrediad y darperir ar ei gyfer ym mharagraff (1)(a) mewn perthynas â dŵr mwynol naturiol sefydledig a gydnabyddir yn yr UE, i beidio.

(4) Yn achos dŵr mwynol naturiol sefydledig a gydnabyddir yng Ngwlad yr Iâ, os yw Gweinidogion Cymru o’r farn bod o leiaf un dŵr mwynol sefydledig a gydnabyddir yn y DU nad yw’n cael ei drin fel dŵr mwynol a gydnabyddir yng Ngwlad yr Iâ at ddibenion Cyfarwyddeb 2009/54/EC, caiff Gweinidogion Cymru hysbysu Awdurdod Bwyd a Milfeddygol Gwlad yr Iâ fod yr achrediad y darperir ar ei gyfer ym mharagraff (1)(b) mewn perthynas â dŵr mwynol naturiol sefydledig a gydnabyddir yng Ngwlad yr Iâ, i beidio.

(5) Yn achos dŵr mwynol naturiol sefydledig a gydnabyddir yn Norwy, os yw Gweinidogion Cymru o’r farn bod o leiaf un dŵr mwynol sefydledig a gydnabyddir yn y DU nad yw’n cael ei drin yn Norwy fel dŵr mwynol a gydnabyddir at ddibenion Cyfarwyddeb 2009/54/EC, caiff Gweinidogion Cymru hysbysu Awdurdod Diogelwch Bwyd Norwy fod yr achrediad y darperir ar ei gyfer ym

---

(1) OJ Rhif L 164, 26.6.2009, t. 45.



mharagraff (1)(c) mewn perthynas â dŵr mwynol naturiol sefydledig a gydnabyddir yn Norwy, i beidio.

(6) Ni chaniateir rhoi hysbysiad o dan baragraff (3), (4) neu (5) cyn diwedd y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'r diwrnod ymadael yn digwydd.

(7) Rhaid i'r dyddiad a bennir mewn hysbysiad a roddir o dan baragraff (3), (4) neu (5) fel y dyddiad y daw achrediad i ben fod o leiaf 6 mis ar ôl y dyddiad y rhoddir yr hysbysiad arno, gan ddechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad hwnnw arno.

(8) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi copi o unrhyw hysbysiad a roddir o dan baragraff (3), (4) neu (5) mewn modd sy'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei fod yn briodol er mwyn dwyn ei effaith, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, i sylw'r rhai hynny neu gynrychiolydd y rhai hynny, yng Nghymru, y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod yr hysbysiad yn debygol o effeithio arnynt.

(9) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi o bryd i'w gilydd, mewn modd sy'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei fod yn briodol, restr o enwau y dŵr mwynol naturiol sefydledig a gydnabyddir yn yr UE, yng Ngwlad yr Iâ ac yn Norwy sy'n cael ei drin fel dŵr mwynol naturiol achrededig o dan baragraff (1) ("rhestr paragraff 9").

(10) Pan roddir hysbysiad o dan baragraff (3), (4) neu (5), rhaid i Weinidogion Cymru ddiweddarar'r rhestr paragraff 9 cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad fel y dyddiad y daw'r achrediad i ben.

(11) Mae'r rhestr paragraff 9 i'w thrin fel tystiolaeth derfynol bod y dŵr yn ddŵr mwynol naturiol achrededig at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(12) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "Aelod-wladwriaeth" ("*member State*") yw Aelod-wladwriaeth o'r UE fel y mae wedi ei gyfansoddi yn union ar ôl y diwrnod ymadael;

ystyr "Cyfarwyddeb 2009/54/EC" ("*Directive 2009/54/EC*") yw Cyfarwyddeb 2009/54/EC fel y'i hymgorfforir yng nghytundeb yr AEE, ac fel yr oedd yn cael effaith, yn union cyn y diwrnod ymadael;

ystyr "dŵr mwynol naturiol sefydledig a gydnabyddir yng Ngwlad yr Iâ" ("*established Icelandic recognised natural*

*mineral water*”) yw dŵr mwynol naturiol a echdynnwyd o’r ddaear yng Ngwlad yr Iâ—

(a) yr oedd ganddo, yn union cyn y diwrnod ymadael, statws dŵr mwynol naturiol a gydnabyddir at ddibenion Cyfarwyddeb 2009/54/EC, a

(b) y mae’r gydnabyddiaeth honno yn parhau mewn grym ar ei gyfer;

ystyr “dŵr mwynol naturiol sefydledig a gydnabyddir yn y DU” (“*established recognised UK natural mineral water*”) yw dŵr mwynol naturiol a echdynnwyd o’r ddaear yn y Deyrnas Unedig—

(a) yr oedd ganddo, yn union cyn y diwrnod ymadael, statws dŵr mwynol naturiol a gydnabyddir at ddibenion Cyfarwyddeb 2009/54/EC, a

(b) y mae’r gydnabyddiaeth honno yn parhau mewn grym ar ei gyfer;

ystyr “dŵr mwynol naturiol sefydledig a gydnabyddir yn Norwy” (“*established Norwegian recognised natural mineral water*”) yw dŵr mwynol naturiol a echdynnwyd o’r ddaear yn Norwy—

(a) yr oedd ganddo, yn union cyn y diwrnod ymadael, statws dŵr mwynol naturiol a gydnabyddir at ddibenion Cyfarwyddeb 2009/54/EC, a

(b) y mae’r gydnabyddiaeth honno yn parhau mewn grym ar ei gyfer;

ystyr “dŵr mwynol naturiol sefydledig a gydnabyddir yn yr UE” (“*established EU recognised natural mineral water*”) yw—

(a) dŵr mwynol naturiol a echdynnwyd o’r ddaear mewn unrhyw Aelod-wladwriaeth—

(i) yr oedd ganddo, yn union cyn y diwrnod ymadael, statws dŵr mwynol naturiol a gydnabyddir at ddibenion Cyfarwyddeb 2009/54/EC, a

(ii) y mae’r gydnabyddiaeth honno yn parhau mewn grym ar ei gyfer;

(b) dŵr mwynol naturiol a echdynnwyd o’r ddaear mewn trydedd wlad—

(i) yr oedd ganddo, yn union cyn y diwrnod ymadael, statws dŵr mwynol naturiol a gydnabyddir at ddibenion Cyfarwyddeb 2009/54/EC ar ôl cael ei gydnabod gan unrhyw Aelod-wladwriaeth fel dŵr mwynol naturiol at ddibenion Cyfarwyddeb 2009/54/EC ar sail

tystysgrif (“tystysgrif Erthygl 1(2)”) o’r math y cyfeirir ato yn yr ail is-baragraff o Erthygl 1(2) o Gyfarwyddeb 2009/54/EC a ddyroddir gan yr awdurdod cyfrifol yn y wlad y’i hechdynnwyd ynddi,

(ii) y mae’r gydnabyddiaeth honno yn parhau mewn grym ar ei gyfer, a

(iii) y mae’r dystysgrif Erthygl 1(2) yn parhau i fod yn ddilys ar ei gyfer;

ystyr “dyddiad y daw’r achrediad i ben” (“*accreditation cessation date*”) yw’r dyddiad dod i ben a bennir mewn hysbysiad a roddir gan Weinidogion Cymru o dan baragraff (3), (4) neu (5);

mae i “trydedd wlad” yr un ystyr ag a roddir i “third country” yng Nghyfarwyddeb 2009/54/EC.”

(6) Yn rheoliad 24(1)(a), yn lle “bodloni gofynion Cyfarwyddeb 98/83 ac yn cydymffurfio’n benodol” rhodder “cydymffurfio”.

(7) Yn rheoliad 27A—

(a) ym mharagraff (b), hepgorer “neu o Wladwriaeth AEE arall”;

(b) ym mharagraff (c)—

(i) yn lle “wlad nad yw’n Wladwriaeth AEE arall” rhodder “drydedd wlad”;

(ii) hepgorer “neu mewn Gwladwriaeth AEE arall”.

(8) Yn rheoliad 27B—

(a) ym mharagraff (b)—

(i) hepgorer “neu o Wladwriaeth AEE arall”;

(ii) yn lle’r geiriau o “fel triniaeth sy’n cydymffurfio” i “fel y’i gweithredir” rhodder “o dan y ddeddfwriaeth berthnasol ynghylch dŵr wedi’i botelu sy’n gymwys”;

(iii) hepgorer “neu’r Wladwriaeth AEE honno”;

(b) ym mharagraff (c)—

(i) yn lle “wlad nad yw’n Wladwriaeth AEE arall” rhodder “drydedd wlad”;

(ii) hepgorer “neu mewn Gwladwriaeth AEE arall”;

(iii) yn lle’r geiriau o “Erthygl 5” i “ddŵr ffynnon” rhodder “y ddeddfwriaeth berthnasol ynghylch dŵr wedi’i botelu sy’n gymwys yn y rhan honno o’r Deyrnas Unedig”.

(9) Hefgorer rheoliad 33(4).

(10) Yn rheoliad 36(1)(b), yn lle “gwlad ar wahân i Wladwriaeth AEE” rhodder “trydedd wlad”.

(11) Yn Atodlen 1—

- (a) ym mharagraff 1, yn y geiriau o flaen is-baragraff (a), hepgorer “at ddibenion Erthygl 1 o Gyfarwyddeb 2009/54”;
- (b) yn Rhan 2, yn y pennawd, yn lle “gwlad heblaw Gwladwriaeth AEE” rhodder “trydedd wlad”;
- (c) ym mharagraff 5, yn y geiriau o flaen is-baragraff (a)—
  - (i) yn lle “gwlad heblaw Gwladwriaeth AEE” rhodder “trydedd wlad”;
  - (ii) hepgorer “at ddibenion Erthygl 1 o Gyfarwyddeb 2009/54”.

(12) Yn Atodlen 10, ym mharagraff 1(1), yn lle “ag Atodiad III i Gyfarwyddeb 98/83 a’r” rhodder “â’r”.

(13) Yn Atodlen 11, ym mharagraff 1, yn lle “ag Atodiad III i Gyfarwyddeb 2013/51 a’r” rhodder “â’r”.

### **Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016**

**9.**—(1) Mae Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 7(2)—

- (a) yn is-baragraff (a), hepgorer y geiriau o “, fel y’i darllenir” hyd at y diwedd;
- (b) yn is-baragraff (c), yn lle “Comisiwn” rhodder “Awdurdod Diogelwch Bwyd”.

(3) Yn rheoliad 10(2)(d), yn lle “Comisiwn” rhodder “Awdurdod Diogelwch Bwyd”.

(4) Yn rheoliad 13(2)—

- (a) hepgorer is-baragraff (a);
- (b) yn is-baragraff (b), yn lle “Comisiwn” rhodder “awdurdod priodol”.

(5) Yn lle Atodlen 1, rhodder yr Atodlen 1 newydd a nodir yn yr Atodlen i’r Rheoliadau hyn.

### **Rheoliadau Bwydydd Newydd (Cymru) 2017**

**10.**—(1) Mae Rheoliadau Bwydydd Newydd (Cymru) 2017(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 1, yn y tabl—

---

(1) O.S. 2016/386 (Cy. 120), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(2) O.S. 2017/1103 (Cy. 279).

- (a) yn y cofnod ar gyfer Erthygl 6(2) fel y'i darllenir gydag Erthyglau 24 a 35(2), yn yr ail golofn, yn lle "rhestr yr Undeb" rhodder "y rhestr";
- (b) yn y cofnod ar gyfer Erthygl 25, yn yr ail golofn, yn lle "Comisiwn Ewropeaidd" rhodder "Awdurdod Diogelwch Bwyd".

*Vaughan Gething*

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,  
un o Weinidogion Cymru  
Dyddiad

# ATODLEN

Rheoliad 9(5)

## Yr Atodlen i'w rhoi yn lle Atodlen 1 i Reoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016

### “Atodlen 1 Rheoliad 12

#### Darpariaethau Penodedig Rheoliad 767/2009

<i>Y ddarpariaeth benodedig</i>	<i>Y pwnc</i>
Erthygl 4(1) a (2), fel y'i darllenir gydag Erthygl 4(3) ac Atodiad 1	Gofynion diogelwch cyffredinol a gofynion eraill i'w bodloni pan osodir bwyd anifeiliaid ar y farchnad neu pan y'i defnyddir.
Erthygl 5(1)	Estyn y gofynion mewn perthynas â bwyd anifeiliaid ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd mewn deddfwriaeth arall i fod yn gymwys i fwyd anifeiliaid ar gyfer anifeiliaid nad ydynt yn cynhyrchu bwyd.
Erthygl 5(2), fel y'i darllenir gydag Erthygl 12(1), (2) a (3)	Rhwymedigaeth ar berson sy'n gyfrifol am labelu i roi gwybodaeth ar gael i'r awdurdod cymwys.
Erthygl 6(1), fel y'i darllenir gydag Atodiad 3	Gwaharddiad neu gyfyngiad ar farchnata neu ddefnyddio deunyddiau penodol at ddibenion maeth anifeiliaid.
Erthygl 8	Rheolaethau ar y lefelau o ychwanegion mewn bwydydd anifeiliaid.
Erthygl 9	Rheolaethau ar farchnata bwydydd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol.
Erthygl 11, fel y'i darllenir gydag Erthygl 12(1), (2) a (3), Atodiadau 2 a 4 a'r Catalog o ddeunyddiau bwyd anifeiliaid	Rheolau ac egwyddorion sy'n llywodraethu labelu a chyflwyno bwyd anifeiliaid.
Erthygl 12(4) a (5)	Dynodi'r person sy'n gyfrifol am labelu a rhwymedigaethau a chyfrifoldebau'r person hwnnw.
Erthygl 13(1), fel y'i darllenir gydag Erthygl 12(1), (2) a (3)	Amodau cyffredinol ar wneud honiad ynghylch nodweddion neu swyddogaethau bwyd anifeiliaid wrth ei labelu neu ei chyflwyno.
Erthygl 13(2) a (3), fel y'i darllenir gydag Erthygl 12(1), (2) a (3)	Amodau arbennig sy'n gymwys i honiadau ynghylch gwneud y gorau o'r maeth ac ynghylch cynnal neu warchod yr amodau ffisiolegol.
Erthygl 14(1) a (2), fel y'i darllenir gydag Erthygl 12(1), (2) a (3)	Y gofynion ar gyfer cyflwyno'r manylion labelu mandadol.
Erthygl 15, fel y'i darllenir gydag Erthyglau 12(1), (2) a (3) ac 21 a chydag Atodiadau 6 a 7	Gofynion labelu mandadol cyffredinol ar gyfer deunyddiau bwyd anifeiliaid a bwydydd anifeiliaid cyfansawdd.
Erthygl 16, fel y'i darllenir gydag Erthyglau 12(1), (2) a (3) ac 21 a chydag Atodiadau 2 a 5 a'r Catalog o ddeunyddiau bwyd anifeiliaid	Gofynion labelu penodol ar gyfer deunyddiau bwyd anifeiliaid.
Erthygl 17(1) a (2) fel y'i darllenir gydag Erthyglau 12(1), (2) a (3) ac 21 a chydag Atodiadau 2, 6 a 7	Gofynion labelu penodol ar gyfer bwydydd anifeiliaid cyfansawdd.
Erthygl 18, fel y'i darllenir gydag Erthygl	Gofynion labelu ychwanegol ar gyfer bwyd

12(1), (2) a (3)	anifeiliaid at ddibenion maethol penodol (bwydydd anifeiliaid deietegol).
Erthygl 19, fel y'i darllenir gydag Erthygl 12(1), (2) a (3)	Gofynion labelu ychwanegol ar gyfer bwyd anifeiliaid anwes.
Erthygl 20(1), fel y'i darllenir gydag Erthygl 12(1), (2) a (3) a chydag Atodiad 8	Gofynion ychwanegol ar gyfer labelu bwyd anifeiliaid nad yw'n cydymffurfio, megis bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys deunyddiau halogedig.
Erthygl 23	Gofynion sy'n ymwneud â phe cynnu a selio deunyddiau bwyd anifeiliaid a bwydydd anifeiliaid cyfansawdd ar gyfer eu rhoi ar y farchnad.
Erthygl 24(2)	Gofyniad, os defnyddir enw deunydd bwyd anifeiliaid sydd wedi ei restru yn y Catalog o ddeunyddiau bwyd anifeiliaid, fod rhaid cydymffurfio â holl ddarpariaethau perthnasol y Catalog.
Erthygl 24(3)	Rhwymedigaeth ar berson sy'n rhoi ar y farchnad am y tro cyntaf ddeunydd bwyd anifeiliaid nad yw wedi ei restru yn y Catalog o ddeunyddiau bwyd anifeiliaid i hysbysu am ei ddefnydd.”

---